# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

-------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 20 Ionawr 2026

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod.

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** - Eleri Owen, Ken Williams, Iwan Williams, Siôn Tomos,

**<u>Presennol</u> -** Aaron Hughes (cadeirydd), Eifion Jones, Elias Jones, Thomas Williams, Eirian Allport, Guto Rhys Huws, Gwenno Griffiths, Rhys Jones, Cyng. Dafydd Davies.

**3. <u>Cofnodion cyfarfod 16 Rhagfyr 2025</u>** – Cynigwyd gan Thomas Williams ac eiliwyd gan Eifion Jones fod y cofnodion yn gywir.

**4. <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt - Aaron Hughes wedi siarad gyda John Lloyd o LWH ond heb glywed dim gan y cyfreithwyr. Rhywun gyda diddordeb mewn rhoi cynnig ar y tir. Cynnig gan Thomas Williams i roi awdurdod i barhau hefo cael sgwrs am hyn er mwyn symud pethau ymlaen ac eiliwyd gan Elias Jones. Aaron i gysylltu hefo LWH.

2. Mynediad i'r fynwent – dim i'w adrodd. Y clerc wedi cysylltu â'r gyfreithwraig unwaith eto ond heb dderbyn ymateb. Angen cysylltu eto.

3. Pont Tai Lôn a Pantafon – y gwaith yma dal heb ei orffen ond ar y gweill.

4. Coed Aberdesach – Eirian Allport adrodd bod Henbant wedi bod yn plannu rhai coed ond heb orffen eto. Diolch iddynt am eu gwaith gyda hyn.

5. Arwydd cyflymder – Cyngor Gwynedd am osod yr arwydd yn fuan.

6. Deffibs - wedi cael pris am gabinet newydd i Bontllyfni - pris gan Defibstore o £570 + TAW. Gan nad oes cwmnïau dibynadwy yn gwerthu'r nwyddau sydd ei angen i'r diffibs cynigiodd Thomas Williams i dderbyn y pris hwn. Eiliwyd y cynnig. Angen gofyn i drydanwr ddod i'w osod pan fydd wedi cyrraedd. Hefyd, gofyn i Gyngor Gwynedd os oes modd cael golau stryd wrth y diffib ym Mhontllyfni - adroddodd Cyng. Davies y buasai yn siarad â nhw am hyn.

7. Biniau - Cyng. Dafydd Davies am ofyn i Gyngor Gwynedd osod y bin baw ci yn nôl wrth lwybr Cae'r Bont.

8. Clwb Ieuenctid a chais grant Gwynedd Ni – y gwaith hwn wedi ei orffen a'r arian wedi ei dalu yn nôl i gyfrif y Cyngor Cymuned. Diolch i Eirian Allport am ei gwaith hefo hyn.

9. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi - Cyng. Dafydd Davies am ddilyn fyny hefo hyn gyda'r Tîm Tacluso. Gwenno Griffiths wedi holi'r gwasanaeth prawf i weld os allent ddod i wneud rhywfaint o'r gwaith - disgwyl am ymateb nôl ganddynt. Bydd angen rhestr o beth sydd angen ei wneud os ydynt am fedru dod.

10. Pryderon goddiweddu Aberdesach - adroddiad wedi dod gan Gyngor Gwynedd. Pawb wedi derbyn copi ohono i'w ddarllen ymlaen llaw. Aethpwyd drwy'r adroddiad a'r argymhellion, ond penderfynwyd gan ei fod yn hirfaith

Arwyddwyd ……………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………

yna dylai pawb gael cyfle i edrych drosti yn iawn a'i drafod ymhellach mis nesaf. Ymateb i Gyngor Gwynedd i ddweud hyn.

11. Ffoes Simbil - neb wedi bod yno. Cyng. Dafydd Davies wedi siarad hefo Dewi Owen o Gyngor Gwynedd ond ni all o wneud dim a bydd angen i rywun o adran priffyrdd fynd yno. Cyng. Davies am gysylltu â nhw.
12. Golau Nadolig - trafod hyn ymhellach eto gan fod yna dipyn o gostau i gael hyn i ddigwydd.
13. Arwyddion llwybr lan môr – disgwyl am brisiau gan Designer Signs am yr arwyddion hyn.

**5. Ceisiadau cynllunio** – C25/0876/34/DT – 4 Llys Eben, Clynnog Fawr – Estyniad unllawr to fflat newydd i'r cefn ac ochr – DIM GWRTHWYNEBIAD

**6. Materion ariannol**

a) Sefyllfa ariannol ar 28 Rhagfyr 2025

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £133.19 |
| Cyfrif cyfredol | £20522.15 |

b) Cyllideb 2026/27 a Praesept 2026/27
Aethpwyd drwy'r gyllideb ar gyfer 2026/27 er mwyn gweld y costau ayyb a chynigwyd i gael £40,000 o praesept. Eiliwyd y cynnig a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Gohebiaeth –** nid oedd dim yn codi o unrhyw ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod yn mis.

**8. Materion aelodau** - Guto Rhys Huws - rhwng Llwyn Isaf a Llwyn Gwanadl Uchaf cwynion os oes cerbyd uchel yna maent yn bachu'r coed. Hefyd Allt Mursant. Hefyd, coeden wedi disgyn ar ffens yn Llwyn Isaf. Lôn o Foel am Gefn Lluar / Llanllyfni hefo'r un broblem hefyd. Cyng. Dafydd Davies - holi os oes modd talu i lenwi'r bocs graen sydd yn Ysgol Brynaerau pan fo'r angen. Gwenno Griffiths - Canolfan Lleu, Penygroes - gyrru i grŵp Cynefin i gael gwybodaeth bellach ynglŷn â beth sy'n mynd ymlaen.

**9. Materion eraill –** dim yn codi.

**10. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 17 Chwefror 2026 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………….